



Elin Jones AS
Y Llywydd

Llywydd@senedd.cymru

8 Tachwedd 2023

Annwyl Llywydd,

Rwyf wedi adolygu fy sylwadau wrth arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe (7 Tachwedd) a hoffwn ei gwneud yn glir bod WhatsApp wedi'i lawrlwytho ar fy ffôn symudol a ddarparwyd gan y Senedd. Nid wyf yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i anfon negeseuon. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Cofnod yn cael ei ddiwygio yn hyn o beth.

Nodaf eto na ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru ddulliau cyfathrebu anffurfiol i wneud penderfyniadau yn ystod y pandemig, mewn cyferbyniad llwyr â'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno i ymchwiliad Covid-19 y DU yn yr wythnosau diwethaf.

Rydym yn parhau i gydweithredu'n llawn ag ymchwiliad Covid-19 y DU a byddwn yn darparu'r holl ddeunyddiau y gofynnir amdanynt, gan gynnwys negeseuon WhatsApp.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Andrew RT Davies.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD